**TUDALEN 9**
Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **27 Mehefin 2022** am 7.20 pm.

**YN BRESENNOL: -** Ei Deilyngod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts, y Dirprwy Faer Cynghorydd Elin Walker Jones, Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fata, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Anna Haydn, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Jac Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Chris Johnson, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref dros dro), Gwynfor Owen (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

**32/22 YMDDIHEURIADAU**
Dim

**33/22 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Datganodd Cyng Fernley ddiddordeb yn eitem 37/22 diweddariad Nantporth.

**34/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Dim.

**35/22 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**
Cynigiwyd enw'r Cyng Medwyn Hughes i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn.
Roedd pawb o blaid.

Yna gofynnodd y Cyng Hughes am enwebiadau i swydd yr Is-Gadeirydd a chynigiwyd enw'r Cyng Steve Bell.
Roedd pawb o blaid.

**36/22 DERBYN ADRODDIAD GAN Y CLERC Y DREF DROS DRO**
Adroddodd Clerc y Dref ar y canlynol:

- Roedd angen cwympo 3 coeden yng Nghoedydd Menai yn syth ac mae 15 arall yn beryglus. Bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gau'r ffordd pan fydd hyn yn digwydd.
- Mae angen gwaith ar Bafiliwn y Pier, dylai'r gwaith ar y peipiau fod wedi'i orffen mewn 3 wythnos. Erbyn hyn mae'r offer chwarae ar faes parcio'r Pier wedi'i dynnu i lawr a disgwylir i'r pensaer tirlunio adrodd yn ôl mewn pythefnos. Heno roedd Rownd a Rownd yn ffilmio ar y Pier – ar gyfer pennod a fydd yn cael ei darlledu yn y Flwyddyn Newydd.
- Roedd y Cyngor wedi cefnogi gorymdaith PRIDE ym Mangor drwy helpu i osod baneri.
- Derbyniwyd e-bost gan Steffan Llyr Williams, Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid, Cyngor Gwynedd. Ei orchwyl oedd gwella'r ddarpariaeth o Glybiau Ieuenctid Cymunedol. **PENDERFYNWYD** cefnogi Steffan a'i wahodd i annerch y Cyngor.
- Gwynedd – Y Gronfa Ffyniant Bro.
  Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu gwneud cais am grant ffyninat bro y DU i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith lleol o safon dda. Roedd rhanbarth Bangor yn yr haen

**TUDALEN 10**
blaenoriaeth uchaf. Roedd cyfarfod briffio eisoes wedi cael ei gynnal. Y blaenoriaethau a awgrymwyd oedd iechyd a lles a'r amgylchedd, yn enwedig prosiect Bae Hirael. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr o gefnogaeth i Gyngor Gwynedd.

- Mae gwaith wedi dechrau i lanhau'r safle bws yn Ffordd y Traeth a gafodd ei ddifwyno gan graffiti. Dywedodd y Cyng Pickavance nad hwn yw'r unig safle bws i gael ei fandaleiddio fel hyn a'i fod wedi anfon e-bost i dynnu sylw at y broblem.

**37/22 DERBYN DIWEDDARIAD GAN IS-BWYLLGOR NANTPORTH**

Rhoddodd Ei Deilyngdod y Maer rywfaint o gefndir y sefyllfa, er budd yr aelodau newydd. Eglurodd fod Cyngor Pêl-droed Dinas Bangor wedi rhoi'r les yn ôl erbyn hyn i Nantporth CIC. Byddai angen cynnal trafodaethau gyda Nantporth CIC i benderfynu ar y ffordd ymlaen. Roedd hi'n hanfodol symud gam wrth gam a diogelu budd y Cyngor. Mae'n bosibl y byddai angen cyngor proffesiynol ar gyfer y camau nesaf.

**38/22 DERBYN CYFLWYNIAD AR BARTNERIAETH STRATEGOL BANGOR**

Rhoddodd y Cynghorydd John Wynn Jones ddiweddariad ar y bartneriaeth. Eglurodd fod y bartneriaeth yn cynnwys nifer o randdeiliaid, e.e. Cyngor y Ddinas a'r Sir, y Brifysgol, Bid Bangor a'r Awdurdod Iechyd, ac mai ei nod oedd trafod ffyrdd o adfywio Bangor. Roedd ef yn teimlo fod y ddinas yn wynebu amser cyffrous:

- Mae hyn yn cyd-fynd â Fframwaith Adfywio Gwynedd, a fydd yn mynd allan i ymgynghoriad eto.
- Bydd strategaeth arwyddion newydd i Fangor yn cael ei rhannu.
- Ffyniant Bro (gweler uchod). Mae trafodaethau ar y gweill i gael Ysgol Feddygol i Fangor, hefyd Hwb Meddygol yng Nghanol y Ddinas. Pe bai'r Hwb yn dod, byddai'n golygu buddsoddiad mawr yng nghanol y ddinas, gyda swyddi a phobl yn ei sgil.
- Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt i wella adeiladau unigol ar y Stryd Fawr.
- Adeiladu – mae gwaith ar fin dechrau ar Blas Penrhos, ac mae fflatiau Plas Farrar wedi'u cwblhau a'u meddiannu. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Y Nyth. Mae cynlluniau hefyd i ail-ddylunio Parc y Coleg.
- Mae Storiel yn bwriadu gwella'r gofod y tu allan at ddibenion hamdden.
- Mae mawr angen gwella'r ardal y tu ôl i'r orsaf, ac mae Network Rail wedi cydnabod hyn o'r diwedd.
- Mae cynlluniau wedi'u gwneud ar gyfer datblygiad Bae Hirael ac mae'n werth bwrw golwg ar y rhain.

Dywedodd y Cyng Jones fod gwaith anhygoel o flaen Bangor a'i fod yn edrych ymlaen at weld y cynlluniau hyn yn dwyn ffrwyth. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth am leoliad rhai o'r cynlluniau.

**TUDALEN 11**

**39/22 TRAFOD ADFYWIO CAEAU CHWARAE BANGOR**

Atgoffwyd yr aelodau gan Glerc y Dref fod £25k wedi'i ddyrannu yn y gyllideb i adfywio llefydd chwarae. Swm blynyddol yw hwn, am y 5 mlynedd nesaf. Erbyn hyn roedd y Cynghorwyr yn dymuno gweld yr arian yn cael ei wario.

Yn ogystal, roedd £10k wedi'i ddyrannu ar gyfer torri gwair a soniodd yr aelodau am lefydd lle'r oedd mawr angen hyn. Dywedwyd na fydda £25k, yn prynu llawer o offer chwarae newydd felly byddai angen denu grantiau hefyd. Y teimlad oedd y dylid rhoi blaenoriaeth i'r Pier gan fod yr hen offer wedi'i symud oddi yno.

**PENDERFYNWYD**

(i) Yn dilyn adroddiad y pensaer tirlunio, trafod y ffordd ymlaen i gael lle chwarae newydd ger y Pier. Hyn i'w roi ar agenda'r cyfarfod nesaf.

(ii) Gosod meini prawf ar gyfer dyrannu'r gronfa i'w defnyddio i uwchraddio gwahanol gaeau chwarae.

**40/22 UNRHYW FATER ARALL**

Roedd y Cyng Walker Jones yn dymuno cofnodi'n ffurfiol ei bod hi'n falch iawn fod Cyngor Dinas Bangor wedi noddi gorymdaith Bangor Pride. Roedd pawb yn cytuno.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.17 pm**

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO